# Camau Gweithredu ar gyfer Grwpiau Cynllunio ar draws Clystyrau Cyfan (PCPGs), Clystyrau, a Chydweithredfeydd Proffesiynol

| MEWNBYNNAU | Arweinyddiaeth a Diwylliant | Rheoli Data ac Iechyd y Boblogaeth | Cyllid ac Adnoddau | Y Gweithlu | Cynnwys y Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|
| CAMAU GWEITHREDU | Cyflwyno Hyrwyddwyr Tegwch Iechyd ar **bob lefel** i hyrwyddo cynllunio a gofal teg, cynhwysol, cymwys yn ddiwylliannol, ac sy'n ystyriol o drawma.<br><br>Arweinwyr gofal sylfaenol yn eiriol dros wasanaethau cymorth integredig cymunedol, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol a thai i gefnogi grwpiau agored i niwed ac i ddiwallu anghenion cleifion.<br><br>Ymgorffori asesiad tegwch fel gofyniad craidd yng nghylchoedd cynllunio blynyddol **PCPG** a **Chlwstwr**.<br><br>Cyflwyno Adolygiadau Tegwch Iechyd chwarterol i fonitro perfformiad ar draws yr holl ganlyniadau allweddol a'r targedau i'w cyflawni.<br><br>Adrodd yn rheolaidd ar sut mae newidiadau mewn cynllunio a darparu gwasanaethau wedi cyfrannu at welliannau y gellir eu mesur o ran tegwch iechyd. | Cymhwyso dulliau Iechyd y Boblogaeth i nodi anghenion heb eu diwallu ymysg poblogaethau lleol, a mynd i'r afael â nhw.<br><br>Ymgorffori profiad gwirioneddol cleifion yn y data ar ddefnydd gwasanaethau i ddylanwadu ar y gwaith cynllunio.<br><br>Datblygu systemau data i adlewyrchu teithiau cleifion, yn cynnwys profiadau bywyd a phatrymau defnyddio gwasanaethau.<br><br>Sefydlu cytundebau rhannu data lleol gyda phartneriaid allweddol – yn cynnwys awdurdodau lleol a'r trydydd sector – i gefnogi cynllunio a darparu gwasanaethau cydgysylltiedig.<br><br>Datblygu cynllun **Clwstwr** ar gyfer gwella cydraddoldeb mewn gofal cardio-metabolig, anadlol a chanser. | Cymhwyso Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a Chydraddoldeb (HEIAs) ym mhob **penderfyniad** ariannu **PCPG** a **Chlwstwr**.<br><br>Dyrannu adnoddau yn seiliedig ar anghenion iechyd y boblogaeth, gan ganolbwyntio ar gymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.<br><br>Cyfeirio cyllid ar lefel clwstwr at brosiectau a mentrau sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. | Hyrwyddo hyfforddiant tegwch iechyd i bob aelod o staff clinigol ac anghlinigol rheng flaen.<br><br>Dyrannu amser DPP wedi'i ddiogelu i staff ar gyfer datblygiad sy'n canolbwyntio ar degwch.<br><br>Ymgorffori hyfforddiant ar anghydraddoldebau iechyd ym mhob rhaglen ymsefydlu.<br><br>Gweithredu cymhellion strwythuredig – fel lleoliadau ar sail gylchdroadol, mentora, a rhaglenni cefnogaeth gan gymheiriaid – i gynorthwyo'r gwaith o ddenu a chadw'r gweithlu.<br><br>Nodi, cefnogi a graddio partneriaethau effeithiol ar gyfer y gweithlu â sefydliadau'r sector gwirfoddol. | Normaleiddio dulliau sy'n seiliedig ar leoliad i leihau anghydraddoldebau iechyd.<br><br>Gwreiddio cydweithio a gweithio integredig â phartneriaid cymunedol, a rhoi blaenoriaeth i'r ardaloedd sydd â'r angen mwyaf.<br><br>Gwneud ymgysylltu â'r gymuned amrywiol a phrofiad bywyd yn rhan arferol o gynllunio, cyflenwi a gwerthuso gwasanaethau.<br><br>Sefydlu Paneli Tegwch Iechyd yn y Gymuned** mewn **PCPG** neu **Glystyrau** â llywodraethu clir.<br><br>Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol i ddarparu gwasanaethau mewn lleoliadau cymunedol<br><br>Sefydlu mecanweithiau adolygu ar gyfer cynnal adolygiadau gan gymheiriaid a phrofiad bywyd mewn Clystyrau i ymateb i adborth ac i rannu arferion gorau.<br><br>Defnyddio adnoddau cenedlaethol fel Gofal Sylfaenol Un i gefnogi tegwch wrth gynllunio Clwstwr. |

** Mae Paneli Tegwch Iechyd Cymunedol yn dwyn ynghyd y cyhoedd ac arbenigwyr trwy brofiad i arwain polisïau, penderfyniadau a chynllunio gwasanaethau gan ganolbwyntio ar degwch.